Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

| |
|---|
| Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd |

**Dyddiad y penderfyniad:**

| |
|---|
| 28 Medi 2021 |

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

| |
|---|
| 28 Medi 2021 |

**Penderfyniad:**

| |
|---|
| PENODI AELODAU'R PANEL APELIADAU ADDYSG ANNIBYNNOL.<br><br>Penderfyniad: Bod yr Aelod Arweiniol dros Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoe yn penodi yr aelodau canlynol ar y Panel Annibynnol Apeliadau Addysg - Leonard Rhys Evans, Linda Williams, Julie Parry, Jo Goodchild |

**Bwriad y penderfyniad:**

| |
|---|
| Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol hysbysebu a phenodi aelodau i'r Panel Apeliadau Addysg Annibynnol. Bydd aelodau'r panel yma yn gwrando ar apeliadau gan rieni mewn perthynas â Derbyniadau a Gwaharddiadau. Pob 3 blynedd mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysebu am aelodau newydd i'r panel a'u penodi. D Mae'r adroddiad yma yn amlinellu rôl aelodau'r panel ac yn ceisio cael cymeradwyaeth gan yr Aelod Arweiniol ar gyfer cymeradwyo aelodau lleyg newydd i'r panel. |

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

| |
|---|
| Gofynnir am benderfyniad gan yr Aelod Arweiniol ei fod yn cymeradwyo penodiad yr unigolion hynny a enwir yn Atodiad 1 fel aelodau lleyg newydd i'r Panel Apeliadau Addysg Annibynnol, ar yr amod y bydd yr aelodau hyn yn derbyn hyfforddiant. |

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

| |
|---|
| Dim cysylltiad i'w ddatgan |

**Ymgynghoriad:**

| |
|---|
| Mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Addysg wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ceisiadau gan y cyhoedd i ddod yn Aelodau o'r Panel. Buasai wedi bod yn anaddas i unrhyw aelod o'r Awdurdod Derbyn neu Gefnogaeth Cwsmeriaid ac Addysg fod yn rhan uniongyrchol o'r broses |

recriwtio, gan fod rhaid i aelodau'r panel, oherwydd eu natur, fod yn annibynnol o'r Awdurdod Derbyn.

Gwahoddwyd swyddogion o’r gwasanaeth Addysg i fynychu’r diwrnod hyfforddiant a gynhaliwyd ar 29 a 30 Ebrill 2021.

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad yma i’r ymgyngoreion gofynnol cyn ei roi gerbron yr Aelod Arweiniol.

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Derbyniwyd ceisiadau gan bob unigolyn a wirfoddolodd i ymuno â’r panel.

**Yr awdurdod i ddirprwyo’r penderfyniad i’r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.